# Lawr lwytho a chyflwyno blaenbrintiau negatif ar gyfer cynyrchiadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â lawr lwytho a chyflwyno blaenbrintiau negatif ar gyfer cynyrchiadau. Mae hyn yn berthnasol i gamerâu ffilm. Fe allai hyn fod yn berthnasol i unrhyw fath o gynhyrchiad gan gynnwys ffilmiau nodwedd, dramâu Teledu neu hysbysebion.

Mae'n ymwneud â lawr lwytho blaenbrintiau mewn amodau priodol, defnyddio gweithdrefnau priodol, storio a labelu blaenbrintiau, llunio dogfennau cysylltiedig, cyflwyno blaenbrintiau a dogfennau a chyflawni gwaith yn brydlon erbyn dyddiad terfyn penodol.

Mae'r safon hon yn berthnasol i'r rheiny sy'n gyfrifol am lawr lwytho a chyflwyno blaenbrintiau negatif ar gyfer cynyrchiadau ynghyd â'r rheiny sy'n gweithio fel 2il Gynorthwywyr neu Lwythwyr Clepio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. lawr lwytho blaenbrintiau mewn amodau priodol ar gyfer negatifau dinoethedig
2. lawr lwytho blaenbrintiau yn unol â'r prosesau cymeradwy
3. ail-ganio darnau ffilmiau byrion defnyddiadwy yn unol â gweithdrefnau'r cynhyrchiad
4. storio blaenbrintiau yn unol â gofynion y cynhyrchiad
5. labelu a marcio caniau gyda'r wybodaeth gywir a gofynnol
6. paratoi'r dogfennau gofynnol i gyd-fynd gyda'r blaenbrintiau
7. cyflwyno blaenbrintiau a dogfennau cysylltiedig i'r bobl berthnasol ynghlwm â'r cynhyrchiad
8. cyflwyno blaenbrintiau yn unol â'r terfynau amser y cytunwyd arnyn nhw
9. trin a storio camerâu a lensys yn unol â'r gofynion diogelwch

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. * *terfynau amser, disgwyliadau a gweithdrefnau'r cynhyrchiad er mwyn lawr lwytho blaenbrintiau negatif
2. y digwyddiadau a all effeithio ar derfynau amser mewn amgylchedd cynhyrchiad
3. y cyfarpar a'r amodau gofynnol i lawr lwytho blaenbrintiau o gyflenwad ffilm
4. y gweithdrefnau gwastraff a sut i ymdrin â darnau ffilmiau byrion
5. sut i ymdrin â darnau ffilm llac neu sydd wedi'i rwymo'n anghyson
6. gofynion labelu a dogfennu'r cynhyrchiad
7. pwy ddylech chi gyflwyno blaenbrintiau iddyn nhw
8. y rolau eraill sydd ynghlwm â'r cynhyrchiad, fel gweithredwyr camera, cynorthwywyr camera 1af a thynwyr ffocws, a phryd i gyfathrebu gyda nhw
9. unrhyw ofynion arbennig er mwyn diogelu'r cyfarpar pan fyddwch yn ei adael heb neb i ofalu amdano
10. cyfarwyddiadau perthnasol y gwneuthurwyr yn ymwneud â'r cyfarpar rydych yn ei ddefnyddio
11. gofynion y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chodi a chario

SKSC37

Lawr lwytho a chyflwyno blaenbrintiau negatif ar gyfer cynyrchiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSCCL5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig â'r Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Camera, Digwyddiadau Byw |
| **Geiriau Allweddol** | camera; cofnodion; saethiad; gwneuthurwyr; cyflenwyr; ategolion; digwyddiadau byw; arddangosfeydd |